# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 8 Mawrth 2018**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

02/03/2018

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 3. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 5. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr

| 6. | PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR |
|---|---|

Cymeradwyo penderfyniad Treth y Cyngor a gosod taliadau Treth y Cyngor ar gyfer 2018/2019.
(Tudalennau 1 - 24)

| 7. | DATGANIAD BLYNYDDOL DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW 2018/19 |
|---|---|

Derbyn ac ystyried Datganiad Blynyddol Darpariaeth Lleiafswm Refeniw 2018/19.
(Tudalennau 25 - 28)

| 8. | TROSGLWYDDIADAU CYFALAF AR GYFER Y CYFRIF REFENIW TAI |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau cyfalaf sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor.
(Tudalennau 29 - 32)

| 9. | DATGANIAD POLISI CYFLOG |
|---|---|

Derbyn ac ystyried y datganiad polisi cyflog ar gyfer 2018/19.
(Tudalennau 33 - 54)

| 10. | TALIADAU AELODAU CYFETHOLEDIG |
|---|---|

Ystyried adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor.
(To Follow)

| 11. | ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL - CYNIGION DRAFFT - SIR POWYS |
|---|---|

Ystyried adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 55 - 60)

| 12. | DATGANIAD RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19 |
|---|---|

Ystyried Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Buddsoddi Blynyddol.
(Tudalennau 61 - 96)

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG - DEFNYDD O BLASTIG |
|---|---|

Mae erchyllion ein dibyniaeth ar blastig bellach yn wybodaeth gyffredin. Mae gan blastig lle pwysig yn ein datblygiad technolegol ac mewn llawer o ffyrdd mae'n gynnyrch dyfeisgar a chwyldroadol. Serch hynny, mae'n bryd am chwyldro plastig arall. Mae'n bryd i gael gwared ar blastig un-defnydd. Ar ôl cael fy ethol i'r Cyngor ym mis Mai, roeddwn yn siomedig iawn gan nifer y cwpanau plastig un-defnydd a chwpanau cyfansawdd un-defnydd a ddefnyddir gan Aelodau, staff ac ymwelwyr

bob dydd. Mae'r ymateb i'r ymgyrch ddiweddar 'Powys Di-blastig' yn arwydd y byddai trigolion yn debygol o fod yr un mor siomedig.

A wnaiff Aelodau ddangos arweiniad trwy ofyn i'r Cyngor ;

A) Hyrwyddo Powys fel awdurdod sydd ar flaen y gad i gwtogi plastig

B) Datblygustrategaeth i:

   1. Annog staff a thrigolion i:

      a. Gludo poteli dwr y gellir eu hail-lenwi ac yn yr hir-dymor, ystyried ffynhonnau ddwr yng nghanol trefi lle gellir eu hail-lenwi.

      b. Cludo cwpanau coffi y gellir eu hailddefnyddio ac i wrthod cwpanau coffi un-defnydd (er enghraifft, mae codi tâl o 5c ar gwpanau coffi un-defnydd mewn adeiladau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor yn un syniad)

      c. Osgoi cynhyrchion gyda gleiniau micro a chofio i fflysio papur yn unig yn eu toiledau. Byddai peidio â fflysio weips bach, ffyn gwlan cotwm a lensys cyffwrdd i lawr y toiled yn lleihau'r plastig yn y môr ac yn helpu'r system garthffosiaeth.

   2. Annog mannau bwyd a diod ar draws y sir i:

      a. Gynnig dewis bioddiraddadwy ac i hysbysebu'r parodrwydd i lenwi cwpanau pobl

      b. Defnyddio gwellt papur a dim rhai plastig

Cynigydd: Cynghorydd Sir Emily Durrant
Eilydd: Cynghorydd Sir Bryn Davies

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG - ANNOG MERCHED I REDEG AM ROLAU O FEWN GWLEIDYDDIAETH |
|---|---|

I ddathlu canmlwyddiant merched yn ennill y bleidlais, mae'r cyngor hwn yn cydnabod y cyfraniad anhygoel y mae merched wedi gwneud i wleidyddiaeth ym Mhowys, Cymru a'r Deyrnas Unedig ers cyn cof.
Bydd y cyngor hwn yn parhau i annog merched i redeg am rolau gwleidyddol yn y dyfodol ac yn ymdrechu i'w cynorthwyo mewn unrhyw ffordd y mae'n gallu.

Cynigydd: Y Cynghorydd Liam Fitzpatrick
Eilydd: Y Cynghorydd Amanda Jenner

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG - COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS |
|---|---|

Gyda rhybuddion clir bod plismona cymunedol a phlismyn sy'n cerdded y stryd yn cael eu torri i'r asgwrn, mae ffigurau newydd yn dangos bod Heddlu Dyfed-Powys wedi mynd yn erbyn y duedd ac wedi gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y plismyn a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) yn y pum mlynedd diwethaf.

Mae yna 29 mwy o blismyn yn ardal yr heddlu nawr na phum mlynedd yn ôl - cynnydd o 2.6 y cant.

Gyda’r cynnydd yng nghyfanswm y plismyn ers 2012, mae Dyfed-Powys yn un o ddim ond tri heddlu yn y DU lle mae’r niferoedd cyffredinol o blismyn wedi cynyddu yn dilyn rhybuddion gan benaethiaid yr heddlu yn y DU fod plismyn cymunedol “o dan fygythiad difrifol o doriadau ariannol”.

Mae nifer y plismyn cymdogaeth a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi codi ers 2012, gyda 31 mwy o swyddogion lleol ar y strydoedd yn 2017 na phum mlynedd yn ôl.

Mae nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Dyfed-Powys wedi codi o 45 y cant i 143 yn yr amser hwnnw - dim ond un o bedwar heddlu lle cododd y niferoedd.

Penderfynir bod:
Y Cyngor yn croesawu ac yn llongyfarch heddlu Dyfed Powys a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, ar y newyddion ei fod yn un o ddim ond tri heddlu yn y DU sydd wedi cynyddu nifer y swyddogion er gwaethaf pwysau ariannol difrifol.

Mae nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol Heddlu Dyfed Powys wedi codi 45 y cant i 143 yn yr amser hwnnw - dim ond un o bedwar heddlu lle cododd y niferoedd.

Cynigydd: Y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd: Cynghorydd Sir Bryn Davies

## 16. CWESTIYNAU YN UNOL A'R CYFANSODDIAD

16.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Kathryn Silk**

A all yr Aelod Cabinet egluro pa gyswllt mae Aelodau'r Cabinet neu swyddogion y Cyngor wedi cael gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y cyhoeddiad ar 30 Ionawr gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am seilwaith digidol bod Powys i’w dargedu ar gyfer cysylltiad band eang cyflym iawn ar gyfer cartrefi a busnesau na chafwyd eu cysylltu o dan y cynllun Openreach blaenorol; faint o eiddo y disgwylir i elwa ym Mhowys o dan y contract arfaethedig newydd; pa ardaloedd o Bowys sy'n cael eu blaenoriaethu; sut mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu sefydlu; pryd y disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau ac yn cael ei gwblhau; ac a all pob anheddiad ym Mhowys ddisgwyl i gael cysylltiad band eang cyflym iawn?
(Tudalennau 97 - 98)

**Mae'r eitem ganlynol wedi cael ei amseru ar gyfer 2.00 p.m.**

## 17. CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TAN

Derbyn cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân, Chris Davies a'r Rheolwr Ardal, Iwan, Iwan Cray.